



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Innovate UK

## Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP)

### Sut mae Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yn gweithio?

Mae'r cynllun Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) yn helpu busnesau i arloesi a thyfu trwy eu cysylltu â Sefydliad Ymchwil ac â pherson â gradd i weithio ar brosiect penodol.

Mae'r cynllun KTP yn cael ei arwain gan Innovate UK a'i ariannu gan 13 o gyrff llywodraethol gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n helpu prosiectau arloesol a chreadigol, sydd â photensial masnachol ac a ddaw â budd economaidd a chymdeithasol i Gymru.

Mae pob KTP yn bartneriaeth deirffordd rhwng busnes, Sefydliad Ymchwil a pherson â gradd. Mae'r Sefydliad Ymchwil yn cyflogi person sydd newydd ennill ei radd i weithio yn y busnes. Bydd y gŵr neu'r wraig gradd, neu'r 'aelod Cyswllt' fel y'i gelwir, yn dod â sgiliau a gwybodaeth newydd i'r busnes.

Gall KTP bara rhwng 12 a 36 mis gan ddibynnu ar y prosiect ac anghenion y busnes. Telir amdani'n rhannol â grant. Bydd cyfraniad ariannol y busnes yn amrywio, gan ddibynnu a yw'n fusnes mawr neu'n fusnes bach neu ganolig.

Amcan KTP yw helpu i drosglwyddo gwybodaeth a lledaenu sgiliau busnes a thechnegol trwy gyfrwng prosiectau arloesol. Bydd yr Aelod Cyswllt yn gweithio o fewn y busnes a bydd yn rhan o'r tîm. Bydd yn datblygu'r prosiect ac yn ei roi ar waith, ac yn cwrdd â'i diwtor ymchwil/academaidd yn rheolaidd i helpu i fynd â'r prosiect yn ei flaen. Trwyddo, caiff sgiliau a gwybodaeth newydd eu datblygu a'u trosglwyddo i aelodau staff y busnes gan roi galluoedd newydd i'r cwmni.

### Ai rhywbeth ichi yw hwn?

Rydych yn fusnes uchelgeisiol sydd am dyfu, bod yn fwy cynhyrchiol a bod yn fwy cystadleuol. Mae gennych brosiect mewn golwg i helpu i wella agwedd ar eich busnes. I gynnal y prosiect, mae angen gwybodaeth a deall y mae'ch busnes yn brin ohonyn nhw. Rydych yn barod i gydweithio â Sefydliad Ymchwil ac i gyflogi person â gradd i fod yn gyfrifol am gynnal y prosiect.

### Pwy sy'n cael cymryd rhan?

Gall busnesau o bob maint, o fewn y rhan fwyaf o ddiwydiannau a sectorau masnachol, gymryd rhan. Bydd rhai cyfyngiadau ynghlwm wrth hyn, fodd bynnag.

I wybod a yw eich busnes yn gymwys, darllenwch rhagor o fanylion am y cynllun yn <http://ktp.innovateuk.org/>

I ddysgu mwy am grantiau KTP yng Nghymru | 03000 6 03000  
[innovation@wales.gsi.gov.uk](mailto:innovation@wales.gsi.gov.uk) | [businesswales.gov.wales/expertisewales/cy](http://businesswales.gov.wales/expertisewales/cy)

Busnes | Business  
Cymru | Wales

arloesi